



Gallwch lawrlwytho'r lluniau yn rhad ac am ddim o [www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org) ar ffurf PowerPoint, Keynote, JPEG neu PDF. Mae'r Cynllun Stori yma yn dangos be sy'n digwydd ym mhob rhan o'r hanes. Darllenwch yr hanes yn y Beibl ac wedyn penderfynwch sut dych chi am gyflwyno'r stori. Mae yna le i chi sgwennu nodiadau. Gallwch ddileu unrhyw luniau/sleidiau nad ydych chi am eu defnyddio, ac ychwanegu lluniau eich hun fel bydd angen.

Disgrifiad	Llun	Nodiadau
------------	------	----------


Barnwyr 13, 14




- 1 Dyma bobl Israel unwaith eto yn gwneud beth oedd yn ddrwg yng ngholwg yr Arglwydd. Roedden nhw wedi troi cefn ar Dduw ac yn addoli delwau.



- 2 Felly dyma'r ARGLWYDD yn gadael i'r Philistiaid eu rheoli nhw am bedwar deg o flynyddoedd. Roedd yna 5 dinas yng ngwlad y Philistiaid: Gasa, Ashkelon, Gath, Ecron ac Ashdod.



- 3 Bryd hynny roedd Manoa a'i wraig yn byw yn Sora (sy'n agos ar dir y Philistiaid). Doedd gwraig Manoa ddim yn gallu cael plant.



- 
- 4 Un diwrnod dyma angel yr ARGLWYDD yn rhoi neges i wraig Manoa, "Ti'n mynd i feichiogi a byddi'n cael mab. Paid yfed gwin nag unrhyw ddiiod feddwol arall, na bwyta unrhyw beth fydd yn dy wneud di'n aflan. Wir i ti, rwy'ti'n mynd i feichiogi a cael mab. Ond rhaid i ti beidio torri ei wallt, am fod y plentyn i gael ei gysegru'n Nasaread i'r ARGLWYDD o'r eiliad mae'n cael ei eni. Bydd yn mynd ati i achub Israel o afael y Philistiaid."



- 
- 5 Dyma hi'n mynd i ddweud wrth ei gŵr beth oedd wedi digwydd. Yna dyma Manoa'n gweddïo ar yr ARGLWYDD, "Meistr, plis gad i'r dyn wnest ti ei anfon ddod aton ni eto, iddo ddysgu i ni beth i'w wneud gyda'r bachgen fydd yn cael ei eni."



- 
- 6 Dyma'r angel yn dod at wraig Manoa eto. Roedd hi'n eistedd yn y cae ar ei phen ei hun. A dyma hi'n rhedeg ar unwaith i ddweud wrtho, "Tyrd, mae e wedi dod yn ôl!"



- 
- 7 Dyma Manoa'n gofyn iddo, "Sut ddylen ni fagu'r plentyn a beth fydd e'n wneud?" "Rhaid i dy wraig wneud popeth ddywedais i wrthi," atebodd yr angel. Yna dyma Manoa'n gofyn iddo, "Beth ydy dy enw di? Pan fydd hyn i gyd yn dod yn wir, dŷn ni eisïau dy anrhydeddu di." A dyma'r angel yn ateb, "Pam wyt ti'n gofyn am fy enw i? Mae e tu hwnt i dy ddeall di."



- 
- 8 Felly dyma Manoa yn cymryd gafr ifanc ac offrwm o rawn a'i gosod nhw ar garreg i'w cyflwyno i'r ARGLWYDD.



- 
- 9 Wrth i'r fflamau godi o'r allor dyma angel yr ARGLWYDD yn mynd i fyny yn y fflamau. Pan welodd Manoa a'i wraig hynny'n digwydd, dyma nhw'n plygu a'u hwynebau i'r llawr.




- 
- 10 Ymhen amser cafodd gwraig Manoa fab a dyma hi'n rhoi'r enw Samson iddo.




- 
- 11 Tyfodd y plentyn a dyma'r ARGLWYDD yn ei fendithio.



- 
- 12 Blynnyddoedd wedyn dyma Samson yn mynd i lawr i Timna. Yno roedd merch ifanc wedi dal ei lygad, un o ferched y Philistiaid. Pan aeth yn ôl adre dyma fe'n dweud wrth ei dad a'i fam, "Dw i wedi gweld merch ifanc yn Timna — un o ferched y Philistiaid. Ewch i'w nôl hi i fod yn wraig i mi."



- 
- 13 Ond dyma ei rieni'n ateb, "Mae'n rhaid bod yna ferch ifanc rywle — un o dy berthnasau; un o dy bobl dy hun. Mae'r Philistiaid yn baganiaid. Pam ddylet ti fynd atyn nhw i gael gwraig?" Gwrthododd Samson wrando ar ei reini a mynnodd fod y briodas yn cael ei threfnu.



- 
- 14 Dyma Samson yn mynd i lawr i Timna gyda'i rieni. Pan oedd wrth ymyl gwinllannoedd Timna dyma lew ifanc yn rhuthro ato. A dyma Ysbryd yr ARGLWYDD yn dod arno'n rymus a dyma fe'n rhwygo'r llew a'i ladd gyda dim ond nerth braich. (Ond wnaeth e ddim dweud wrth ei rieni beth roedd wedi ei wneud). Yna aeth Samson yn ei flaen i Timna a siarad â'r ferch ifanc. Beth amser ar ôl hynny aeth Samson i Timna eto i'w phriodi hi. Ar ei ffordd aeth i weld beth oedd ar ôl o'r llew oedd wedi ymosod arno. Cafodd fod haid o weny yn byw yn sgerbwd yr anifail a bod mêl ynddo. Dyma fe'n crafu peth o'r mêl gyda'i ddwylo a'i fwyta wrth gerdded.



- 
- 15 Yn Timna dyma Samson yn trefnu parti, am mai dyna oedd dynion ifanc oedd am briodi yn arfer ei wneud bryd hynny. Pan welodd y Philistiaid Samson dyma nhw'n rhoi tri deg o ffrindiau i gadw cwmni iddo yn y parti. A dyma Samson yn gosod pos iddyn nhw. Dwedodd, "Os rhowch chi'r ateb i mi cyn diwedd y parti mewn wythnos, gwna i roi mantell newydd, a set o ddillad newydd i'r tri deg ohonoch chi. Ond os allwch chi ddim datrys y pos, bydd rhaid i bob un ohonoch chi roi mantell a set o ddillad newydd i mi." Felly dyma nhw'n dweud wrtho, "Iawn, gad i ni glywed beth ydy dy bos di." A dyma ddwedodd e: "Daeth bwyd o'r bwytäwr; rhywbeth melys o'r un cryf."




- 
- 16 Aeth tri diwrnod heibio a doedden nhw ddim yn gallu meddwl am yr ateb. Y diwrnod wedyn dyma nhw'n mynd at wraig Samson a'i bygwth, "Tricia dy wr i ddweud beth ydy'r ateb i'r pos, neu byddwn ni'n dy losgi di a teulu dy dad. Wnest ti'n gwahodd ni yma i'n gwneud ni'n dlawd?"




- 
- 17 Felly dyma wraig Samson yn mynd ato a dechrau crïo ar ei ysgwydd. "Ti'n fy nghasáu i. Dwyt ti ddim yn fy ngharu i. Ti wedi rhoi pos i rai o'r bechgyn ond dwyt ti ddim wedi dweud wrtho i beth ydy'r ateb." Buodd hi'n crïo ar ei ysgwydd nes oedd y parti bron ar ben. Yna ar y seithfed diwrnod dyma Samson yn dweud yr ateb wrthi am ei bod hi wedi swian gymaint. A dyma hi'n mynd i ddweud wrth y dynion ifanc.




- 
- 18 Cyn iddi fachlud y noson honno dyma ddynion y dref yn mynd at Samson a dweud, "Beth sy'n fwy melys na mêl? A beth sy'n gryfach na llew?" A dyma Samson yn dweud, "Fyddech chi ddim wedi datrys y pos heb gymryd mantais o'm gwraig i!"



- 
- 19 A dyma Ysbryd yr ARGLWYDD yn dod arno'n rymus. Aeth i Ashkelon a lladd tri deg o ddynion. Cymerodd eu dillad a'u rhoi i'r dynion oedd wedi ateb y pos.



- 
- 20 Roedd wedi gwylltio'n lân ac aeth adre at ei rieni. Dyma'i wraig yn cael ei rhoi i'r un oedd wedi bod yn was priodas iddo.



---

21 Cyfieithwyd gan  
www.beibl.net



These illustrations are the copyright of Sweet Publishing and licensed  
by FreeBibleImages for free download under the terms of the  
Creative Commons Attribution-ShareAlike 3.0 unported license.

[www.freebibleimages.org](http://www.freebibleimages.org)

---